| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 19 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cyng. Richard Mainon<br>Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Alan Smith, Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth |
| **Teitl:** | **Adroddiad SIRO ar gyfer 2016/17** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017 ac yn rhoi manylion achosion o dorri'r ddeddf diogelu data gan y Cyngor sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO- Pennaeth Moderneiddio a Gwella Busnes yng Nghyngor Sir Ddinbych). Mae hefyd yn ymdrin â chwynion am y Cyngor yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi cael eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am geisiadau Mynediad i Wybodaeth/ Rhyddid Gwybodaeth a wneir i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ganiatáu'r Aelodau i oruchwylio'r broses.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Dylai cynnwys yr adroddiad gael ei nodi gan y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad

Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) â chyfrifoldeb benodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r systemau a gynlluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu ar dryloywder ac agoredrwydd, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau'n cael trosolwg o'r broses.

<u>Torri Rheolau Diogelu Data</u>

Rwy'n falch o adrodd na fu unrhyw achosion sylweddol o dorri'r Ddeddf Diogelu Data yn y Cyngor yn ystod 2016/17, ond cafwyd cyfanswm o 5 achos llai difrifol.

- 2 achos o anfon gwybodaeth bersonol i'r cyfeiriad anghywir
- 1 achos o wybodaeth bersonol wedi'i gadael ar ffurflen

- 1 achos o ollwng gwybodaeth bersonol mewn maes parcio.   Daethpwyd o hyd i'r wybodaeth 10 munud yn ddiweddarach.
- 1 achos o ollwng gwybodaeth bersonol mewn gorsaf betrol.

O'r pum achos hyn dim ond un o’r rheiny a ystyriwyd yn ddigon difrifol i’w adrodd wrth Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (digwyddiad yr orsaf betrol) ond nid oedd o'r farn bod angen cymryd unrhyw gamau. Er bod achos o dorri rheolau wedi digwydd, yn gyffredinol roedd Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth o’r farn fod systemau’r Cyngor yn gadarn a bod y digwyddiad wedi digwydd gan nad oedd aelod o staff wedi dilyn y protocolau a gytunwyd. Cymerwyd camau disgyblu yn yr achos hwn.

Mae Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth wedi gwneud un argymhelliad i ni, sef y dylem ddatblygu polisi ffurfiol ar gyfer staff sy'n mynd â data personol sy'n ymwneud â'u cleientiaid allan o'r swyddfa. Dylai hynny ddisodli’r canllawiau a ddefnyddiwn ar hyn o bryd, sy’n rhai cynghorol yn unig. Bydd Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes yn datblygu polisi CSDd yn y maes hwn, ond credwn y bydd yn peri rhywfaint o broblemau technolegol i ddechau, yn enwedig mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, ble mae CSDd neu ei bartneriaid yn dal i ddefnyddio rhai systemau papur. Efallai y bydd angen mynd i’r afael â'r rhain fesul cam, efallai yn unol â mentrau mwy cyffredinol i ddigideiddio prosesau'r Cyngor.

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Yn yr adroddiad y llynedd eglurais i'r Aelodau y disgwylir rheoliadau newydd yn ystod 2016 a dyma a fu.

Mae materion preifatrwydd sy'n deillio o dwf mewn technolegau defnyddwyr a symudol, planed sydd wedi'i chysylltu yn well a llif data traws ffiniol eang, wedi cymell yr UE i ailystyried ei ddeddfwriaeth diogelu data i sicrhau bod yr hawliau sylfaenol hyn yn cael eu diogelu yn economi digidol heddiw.   O ganlyniad i hyn, datblygwyd Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a byddant yn berthnasol yn y DU o 25 Mai 2018. Er mai deddfwriaeth yr UE ydyw, mae'r llywodraeth wedi cadarnhau na fydd penderfyniad y DU i adael yr UE yn effeithio ar weithrediad y Rheoliadau hyn.

Mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd gydweithredol wrth baratoi ar gyfer y rheoliadau newydd drwy weithio gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau ymagwedd gyson a chydweithredol ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r prif dasgau dros y 12 mis nesaf yn cynnwys:

- Datblygu cofrestr asedau gwybodaeth sy'n nodi ein daliadau gwybodaeth bersonol.
- Adolygu hysbysiadau preifatrwydd
- Codi ymwybyddiaeth a pharatoi deunyddiau hyfforddiant newydd

Rwyf wedi sefydlu gweithgor gyda'r Cyngor i gynllunio a datblygu unrhyw drefniadau newydd sydd eu hangen yn CSDd, y dasg fwyaf yw creu Cofrestr Asedau Gwybodaeth gynhwysfawr.  Ar ôl ei chwblhau, bydd yn adnodd pwysig ar gyfer y Cyngor, un fydd yn

tanategu ein dealltwriaeth o faint ein hasedau gwybodaeth a'n caniatáu i reoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhain. Mae capasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth i gynorthwyo i baratoi ar gyfer y Rheoliadau.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Derbyniwyd cyfanswm o 1,331 o geisiadau yn ystod y 12 mis diwethaf hyd at 31 Mawrth 2017. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn nodi cynnydd ers y llynedd (8%), gyda nifer uwch o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau amrywiol[1], mae'n ymddangos bod lefel y ceisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd ar gyfer 2014/15 i 2016/17 a 2014/15.**

| | Rhyddid Gwybodaeth | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol | Cyfanswm (ac o fewn y terfyn amser) | Ceisiadau amrywiol | Cyfanswm terfynol (ac o fewn y terfyn amser) |
|---|---|---|---|---|---|
| 14/15 | 880 | 127 | 1007 | 131 | 1138 (91%) |
| 15/16 | 871 | 183 | 1054 | 182 | 1236 (93%) |
| 16/17 | 955 | 128 | 1083 (95%) | 248 | 1331 (96%) |

Roedd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn canolbwyntio ar rai meysydd penodol yn fwy nag eraill ac fel o'r blaen, roeddent yn ymwneud â busnesau neu gan unigolion yn bennaf. Mae'r rhai a gyflwynodd ceisiadau amlaf dros y 12 mis diwethaf wedi'u nodi yn y tabl yn Atodiad 1.

Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau ynglŷn â mynediad i wybodaeth eu herio gan y gofynnwr, neu nid oedd cytundeb yn fewnol ynghylch a ddylai gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor gael ei rhyddhau ai peidio. Cafodd yr achosion hyn eu hadolygu gan Banel a gadeiriwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd. Cyfarfu'r panel 10 gwaith yn ystod y flwyddyn ac adolygwyd 12 o achosion. Mae Atodiad A yn rhestr o'r rhain, ynghyd â chanlyniad pob adolygiad.

Yn 2016/17, ni ymchwiliwyd unrhyw gwynion am y Cyngor o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dylid nodi fod rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Diogelu Data yn parhau i gyflwyno cost o ran adnoddau i'r Cyngor, gyda swyddog yn gwneud hyn yn llawn-amser. Yn ogystal, darparwyd gwaith sylweddol o fewn y Gwasanaethau gan y Swyddogion Rheoli Gwybodaeth, sy'n darparu atebion manwl ar gyfer

[1] Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth amdanynt eu hunain, hawliadau iechyd parhaus a cheisiadau'r heddlu (adran 29)

pob cwestiwn. Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith, mae 96% o'r ceisiadau wedi'u datrys o fewn y gofyniad deddfwriaethol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
   Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i foderneiddio, ond nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaeth gorfforaethol.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
   *Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.*

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
   *Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les*

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
   *Amh.*

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
   *Dim angen*

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
    *Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.*

11. **Grym i wneud y Penderfyniad**
    *Nid oes angen penderfyniad.*